**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 20 Tachwedd 2002 |
| Amser: | 9:00am hyd 12:30pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Sue Essex, Gweinidog yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd (eitem 4):***

| | |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| John Griffiths (yn lle Andrew Davies) | Dwyrain Casnewydd |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr yr Adran Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Denzil Jones (eitemau 2 a 4) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Gerry Quarrell (eitem 3) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Richard Thomas (eitem 3) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| ***Sefydliadau Allanol:*** | |
| Chris Cain (eitem 4) | Yr Is-adran Polisi Meysydd Awyr, Adran Drafnidiaeth y DU |
| David Swallow (eitem 4) | Awdurdod Datblygu Cymru |
| ***Yr Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau, y sawl a wahoddwyd ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod gan nodi'r gofynion newydd ar gyfer datganiadau o fuddiant yn unol â Rheol Sefydlog 4.5. Roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi cael eu gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 28 Tachwedd, lle y byddai'r Comisiynydd Plant yn cyflwyno ei adroddiad cyntaf.

1.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraethau Galicia a Sbaen yn mynegi eu cefnogaeth a'u cydymdeimlad yn dilyn trychineb y tancer Prestige. Byddent hefyd yn cysylltu â Llywodraeth y DU yn pwyso arnynt i gynorthwyo awdurdodau Sbaen gyda'r gwaith glanhau ac i weithio tuag at gyflwyno gwaharddiad yr UE ar danceri un tanc.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** -EPT-16-02 (p 2)

2.1 Yn ogystal â'r eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, rhoddodd y Gweinidog adroddiad ar ddigwyddiadau diweddar a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor am y canlynol:

- Cynigion ynghylch ffermydd gwynt tywodydd clogwyni - byddai'r Cynulliad yn ystyried unrhyw gais o dan y *Transport and Works Act 1992* [Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd

1992];

- Nantygwyddon - byddai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Meddygol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gamau a gymerwyd er mwyn rhoi argymhellion y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar Nantygwyddon ar waith mewn perthynas ag iechyd;

- Ysgol John Bright, Llandudno - roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ysgrifennu at Gyngor Conwy ynghylch effeithiau'r datblygiad arfaethedig o ran cynllunio, arian ac iechyd. Roedd swyddogion wedi cyfarfod â swyddogion y Cyngor ac wedi pwysleisio'r angen i'r awdurdod lleol a'r awdurdod iechyd gydweithio er mwyn ailennyn hyder y cyhoedd.

2.2 Dyma'r prif bwyntiau a drafodwyd:

**Trafnidiaeth**

- Trafnidiaeth Gyhoeddus - cymorth i estyn y tocynnau teithio rhatach i gynnwys pensiynwyr a phobl anabl sy'n teithio ar drafnidiaeth gymunedol, a chynnwys teithwyr yn y Grwp Budd-ddeiliaid newydd;

- Tocynnau teithio rhatach - cymorth i adolygu'r fformwla a'r fformwla ar gyfer rhoi arian i'r diben hwn i awdurdodau lleol;

- Lefelau Swn Ffyrdd - cais arall am fanylion i'r Aelodau am y rhaglen ar gyfer gosod arwynebau newydd ar y rhwydwaith cefnffyrdd ger ardaloedd preswyl;

- Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau - yr angen i drafod gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ar 4 Rhagfyr eu manylebau i gynigwyr o ran gwasanaethau presennol a gwell gwasanaethau.

**Cynllunio**

- Cynlluniau Mentrau Cyllid Preifat (PFI) - cais am eglurhad ar drosglwyddo risg ar gynlluniau PFI a ariennir gan y cyhoedd. Byddai'r Gweinidog yn ei basio ymlaen i'r Gweinidog Cyllid ei ddarparu y tu allan i'r pwyllgor;

- Nodiadau Cyngor Technegol - cais am fanylion y Nodiadau hynny sy'n cael eu hadolygu ac amcan o'r dyddiadau cyhoeddi, y byddai'r Gweinidog yn eu darparu y tu allan i'r pwyllgor.

**Diogelu’r Amgylchedd;**

- Gwastraff - pryder ynghylch cael gwared â theiars a gafodd eu mewnforio i'r DU i'w hailddefnyddio, yn wreiddiol;

- Ceisiadau am wybodaeth - byddai'r Gweinidog yn darparu'r wybodaeth ganlynol y tu allan i'r pwyllgor: amserlen ar gyfer gweithredu Rheoliadau Gwastraff Arbennig; manylion safonau gorfodol y CE ar gyfer Dyfroedd Ymdrochi; effaith Rheoliadau Cyflenwadau Dwr Preifat.

**Eitem 3: Adolygiad Arfaethedig o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru** -

EPT-16-02 (p 2)

3.1 Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad, sef:

- Rôl y Parciau -– bod yr angen i gadw cydbwysedd rhwng rolau cenedlaethol a lleol y Parciau Cenedlaethol a goblygiadau ar gyfer aelodaeth y Parciau a'r trefniadau o ganlyniad i hynny o ran atebolrwydd eu Haelodau;,

- Integreiddio – dylid cymryd i ystyriaeth ganlyniad yr adolygiad wrth ystyried yn fwy cyffredinol yr angen posibl yn y tymor hwy am asiantaeth amgylchedd a chefn gwlad integredig yng Nghymru;

- Croesi ffiniau - yr angen am i'r Parciau hysbysu a chynnwys cymunedau, lleol yn enwedig a'r yr ardaloedd trefol rheini hynny sy’n agos tu allan i'r Parciau ond sydd y tu allan iddynt, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, a'u cynnwys yn eu gwaith;

- Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy - yr angen i egluro a datblygu rôl y Parciau yn y gwaith o hyrwyddo adfywio cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig a threfi a chynhwysiant cymdeithasol.

3.2 Byddai'r cylch gorchwyl yn cael ei adolygu i ystyried barn y Pwyllgor. Roedd disgwyl i'r adolygiad ddechrau ym mis Chwefror a byddai'n para am bump i chwe mis.

**Eitem 4: Datblygu Trafnidiaeth Awyr yng Nghymru yn y Dyfodol** -

EPT-16-02 (p 3)

1. Crynhodd Chris Cain y prif faterion sy'n berthnasol i Gymru, sy'n deillio o waith ymgynghori'r DU ar ddatblygu trafnidiaeth awyr yn y dyfodol (mae copi o'r cyflwyniad yn Atodiad 1). Dyma'r prif gasgliadau y daethpwyd iddynt wrth drafod:

- Strategaeth y DU - galwad ar i'r strategaeth adlewyrchu anghenion Cymru am ragor o deithiau awyrennau Ewropeaidd a rhyngwladol o Gaerdydd, datblygiadau awyr newydd i'r gorllewin o Lundain, a gwell cysylltiadau rheilffyrdd i Heathrow a Gatwick o Dde Cymru ac i Fanceinion o Ogledd Cymru;

- Rhwydwaith awyr mewnol i Gymru - cefnogi gwaith pellach ar ymarferoldeb gwasanaethau awyr mewnol fel modd o gysylltu Gogledd Cymru, y Canolbarth a'r De, gan ategu gwasanaethau eraill trafnidiaeth gyhoeddus, a chydnabod y byddai teithwyr awyr yng Ngogledd Cymru a'r Canolbarth yn parhau i ddefnyddio meysydd awyr Lloegr yn hytrach na Chaerdydd i deithio'n rhyngwladol;

- Meysydd awyr presennol Cymru - yr angen i gynyddu capasiti Caerdydd a meysydd awyr eraill Cymru a'i gwneud yn haws eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn ceir preifat;

- Datblygiadau arfaethedig newydd Glannau Hafren - yr angen i ddadansoddi a gwerthuso'r cynigion i ddatblygu maes awyr rhyngwladol yng Nglannau Hafren, a oedd eto i'w cyflwyno;

- Materion amgylcheddol - yr angen i gynnwys asesiad o ba mor dderbyniol yw effeithiau amgylcheddol yn y rhagolygon am y galw am drafnidiaeth awyr yn y dyfodol.

4.2 Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn anfon copi o'r cofnodion i'r Adran Drafnidiaeth er mwyn i farn y Pwyllgor gael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghori.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod 6 Tachwedd 2002** -EPT-15-02 (min)

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 6 Tachwedd, cyn belled â bod paragraff 4.1, pwynt bwled 2, yn cael ei newid fel a ganlyn:

- Cydlynu cenedlaethol a lleol - angen sicrhau bod arweinwyr gwleidyddol ac uwch reolwyr yn deall pam fod bioamrywiaeth yn allweddol i'n dyfodol. Angen prosiectau i adfer cynefinoedd ar raddfa fawr, yn arbennig prosiectau morol, yn ogystal â mentrau lleol i ategu mentrau lleol. Ple i beidio ag esgeuluso'r amgylchedd morol. Effaith y diwygiadau i'r CAP a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) ar flaenoriaethau cadwraeth;

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Byddai cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor am 9.15am ddydd Mercher, 4 Rhagfyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai seminar arnffurfiol ar effeithiau'r amgylchedd ar iechyd dynol am 2.00pm ddydd Iau, 28 Tachwedd yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2002**